

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 5ed 2017 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gwenda Morris (Cadeiryddes), Gary Thomas, Gethin Morris, Eifion Davies, Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Gwynedd Jones, Alwyn Jones, Rita Jones a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eilir Rowlands, Iolo Evans, Gwenda Evans a'r cynghorydd Elwyn Edwards.

Cydyndeimlwyd a Gwenda Evans yn dilyn ei phroffedigaeth yn ddiweddar.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.

i) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

ii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ethol is-gadeirydd.

Yn dilyn trafodaeth cytunodd Gwynedd Jones i gymryd y swydd.

b) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Symud polyn trydan ger cyffordd yr A494 yng Nghefnddwysarn.

Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau nad oedd gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd unrhyw gofnod o dderbyn y gwyn gwreiddiol yn 2011 ond roeddynt am gysylltu â'r cyflenwr trydan i drafod y problemau a achosir gan y polyn.

ii) Pont Wenallt Bach

Cafwyd cadarnhad bod y gwaith atgyweirio wedi cael ei drefnu.

iii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Adroddiad o'r hyn a drafodwyd yn nosweithiau'r Parc a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn ddiweddar.

ii) Fersiwn adneuo o'r Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig 2016-2031.

b) Amrywiol

i) Eglwys Llanfor - Derbyniwyd gwahoddiad i'r cynghorwyr gyfarfod a'r perchnogion newydd ac ymweld â'r eglwys. Cytunodd y cler i drefnu'r cyfarfod.

ii) Cysylltiad y we yng Nglanrafon - Roedd perchennog busnes a oedd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar wedi cysylltu oherwydd eu bod yn cael trafferthion cael cysylltiad i'r we. Yn dilyn gohebiaeth gyda'r aelod seneddol Liz Saville-Roberts cytunodd roi cymorth iddynt.

iii) Torri coed yn Cae Chwarae Llandderfel - Derbyniwyd cais i gael caniatâd i docio'r coed i sicrhau nad oeddynt yn amharu ar y gwifrau trydan gerllaw. Cytunwyd i adael i'r contractwyr gario mlaen gyda'r gwaith.

ii) Heddlu Gogledd Cymru - gwybodaeth am eu hymgyrch diweddaraf 'Cadw Cymru'n Ddiogel' a gwahoddiad i'w diwrnod agored ar y 16eg o Fedi.

iv) Ceisiadau Cynllunio.

i) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad:-

C17/0650/04/LL - Trosi ac ymestyn adeilad amaethyddol traddodiadol yn uned lety gwyliau hunan cynhaliol. Pen yr Allt, Cwm Main.

C17/0815/04/LL - Dymchwel estyniadau presennol, a chodi estyniad deulawr newydd. Ty'n y Fron, Llandderfel.

C17/0459/04/LL - Cais llawn i ddiwygio gosodiad maes carafanau er mwyn lleoli cyfnaswm o 92 o garafannau sefydlog. Parc Carafanau Llawr y Betws, Glanrafon.

v) Materion Ariannol.

- a) Derbyniwyd ail randal y Praesept, £5500 ac ad-daliad TAW o £304
- b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau) - cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.
- c) Adroddiad Blynyddol – derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir. Cytunwyd i'w gymeradwyo ac arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' ar y wefan.
- ch) Cytunwyd i dalu'r canlynol:- Cyflog y Clerc (Ebr-Meh), Swyddfa Archwilio Cymru (archwiliad mewnol) a TWE
- d) Cynllun Pensiwn - derbyniwyd llythyr gan y clerc yn cadarnhau nad oedd am ymuno a chynllun pensiwn.

vi) Unrhyw Fater Arall.

a) Cofeb Rhyfel Llandderfel.

Yn anffodus roedd cerbyd wedi taro'r gofeb ac nid oedd y gyrrwr wedi hysbysu'r heddlu na'r cyngor. Bu i swyddogion Cyngor Gwynedd ddiogelu'r safle ond roedd cryn ddifrod i sylfaen y gofeb. Gofynnwyd i'r clerc gael prisiau gan contractwyr am atgyweirio'r gofeb.

b) Torri ochrau ffyrdd yr ardal.

Yn ystod yr haf roedd y clerc wedi derbyn cwyn am gyflwr y gwrychoedd ar ôl i'r contractwyr dorri ochrau'r ffyrdd. Cafwyd cadarnhad bod problemau wedi bod gyda'r contractwyr presennol ond roedd bwriad i wella'r trefniant erbyn y tymor tyfiant flwyddyn nesaf.

c) Cais am gefnogaeth gan Bwyllgor Cae Chwarae Llandderfel.

Derbyniwyd cais i gefnogi ymgais y pwyllgor i gael arian tuag at uwchraddio'r offer yn y cae chwarae. Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi eu cais ond cytunwyd ni fyddai'r cyngor yn gallu ymrwymo i gyfrannu'n ariannol am unrhyw waith cynnal a chadw ayyb.

ch) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

- i) Angen torri canghennau'r coed rhwng giât mynediad y Mynydd Du ac Ysgol Ffridd y Llyn, Cefnddwysarn
- ii) Angen tocio'r gwrych ar ochr y ffordd ger Tŷ Uchaf, Celyn a'r gwrych rhwng Tŷ Nant a Brynethol, Cefnddwysarn.
- iii) Wrth osod y tarmac newydd roedd y contractwyr wedi gadael lwmp mawr ar y ffordd ger mynediad Nant y Cyrtiau, Cwmtirmynach. Nid oedd unrhyw arwydd yn rhybuddio'r gyrrwyr a gofynnwyd a oedd modd i'w atgyweirio.
- iv) Roedd cerbyd wedi taro wal y Bont Fawr, Llandderfel ac roedd cerrig wedi dod allan o'i lle. Roedd pryder am gyflwr cyffredinol y bont gan fod cerrig ar y top yn rhydd a choed yn gwyro ac yn pwyso ar y bont.
- v) Roedd pryder am gyflwr yr hen Ysgol Fritanaidd ym mhentref Glanrafon a gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau i weld os oedd posib diogelu'r safle.
- vi) Roedd nifer o drigolion ystâd Tan y Foel, Llanfor wedi gofyn i Cartrefi Cymunedol Gwynedd os oedd posib defnyddio'r garejys gwag gerllaw ond heb gael ymateb. Gofynnwyd i'r clerc holi os oedd unrhyw reswm penodol pam nad oedd y garejys yn cael ei defnyddio.
- vii) Derbyniwyd nifer o sylwadau nad oedd y gwaith ail wynebu ar ddau dy ym mherchnogaeth Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn Heol Trafalgar yn gweddu gyda'r gwaith cerrig traddodiadol ar y tai mewn perchnogaeth breifat drws nesa.